

Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd nos Lun 19/3/2018 Minutes of the Full Council meeting held on Monday evening 19/3/2018

Presennol / Present:

Derek Owen (Cadeirydd/Chair), Roger Dobson, Enid Jones, Carys Davies, Rhian Hayes, Brian Potter, Jack Longman, David Livingstone, Dei Owens.

Yn Bresennol / In Attendance:

Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Eira Parry (Cyfieithu/Translation)

Ymddiheuriadau / Apologies:

Elen Pritchard, Elfed Jones, Cyng/Cllr Richard Jones, Cyng/Cllr Aled Jones

1 Croeso / Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Derek Owen ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol. Nodwyd bod Elfed Jones yn yr ysbyty ac fe ddymunwyd gwellhad buan iddo.

The meeting was chaired by Derek Owen and all present were welcomed. It was noted that Elfed Jones was in hospital and he was wished the best for a speedy recovery.

2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Nododd Roger Dobson ei fod wedi cael caniatad arbennig gan y Pwyllgor Safonau erbyn hyn ac felly gyda'r hawl i drin a thrafod yn llawn materion yn ymwneud ag Wylfa Newydd. Nodwyd bod angen o bosib i Rhian Hayes wneud cais i'r pwyllgor hefyd, a bod y Swyddog Monitro wedi argymhell bod yr aelodau yn nodi eu ddiddordebau ar fap er mwyn cadarnhau os oedd angen i fwy o aelodau, neu yn wir y Cyngor Llawn wneud cais am ganiatad arbennig.

Roger Dobson noted that he had been granted special dispensation by the Standards Committee and as such can speak on, and discuss matters relating to Wylfa Newydd in full. It was noted that Rhian Hayes may need to apply to the committee as well, and that the Monitoring Officer had suggested that all members noted their interests on a map to confirm whether any other members or indeed the Full Council should apply for special dispensation.

3 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan Carys Davies eiliwyd gan Roger Dobson.

The minutes were confirmed correct. Proposed by Carys Davies seconded Roger Dobson.

4 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

4.1 Parth 20mya / 20mph Zone

Cafwyd addrodiad gan Roger Dobson. Roedd yn siomedig ei fod wedi codi'r mater yn ol ym mis Mehefin ac nad oedd unrhyw gamau wedi eu cymryd. Roedd y mater wedi ei godi gan yr hen Gyngor hefyd. Nododd Rhian Hayes ei bod wedi bod o amgylch Tregele gyda holiadur a bod gor-yrru yn bryder mawr i'r rheini oedd yn byw yn y pentref. Mae grwp trigolion Tregele yn cwrdd eto 23/4/2018 gyda swyddog o ardan dai CSYM. Mae'r heddlu yn ymwybodol o'r goryrru yn yr ardal.

Cytuno bod angen gwahodd Dr Gwynne Jones, Dewi Williams a Huw Percy i gwrdd a'r

cyngor i drafod pryderon yr aelodau rwan, a sut bydd y problemau hynnu yn gwaethygu gyda datblygiad Wylfa Newydd. Mae pryder dwys am ddiogelwch rwan, ac mae cynnydd yn llif y traffic yn barod. Cytuno anfon copi o adroddiad Roger Dobson at y tri swyddog uchod a hefyd at Horizon.

Diolchwyd i Roger Dobson am ei gyflwyniad ac am baratoi'r adroddiad.

Roger Dobson gave a report. He was disappointed that he had raised this issue back in June and that no progress had been made. The matter had also been raised by the previous council. Rhian Hayes noted that she had been around Tregelle with a questionnaire and that speeding was a major concern for those living in the village. A meeting of the Tregelle Community Group has been arranged for 23/4/2018 with an officer from IACC housing dept. the police are aware of speeding in the area.

Agreed to invite Dr Gwynne Jones, Dewi Williams and Huw Percy to meet with the council to discuss the members concerns now, and how those issues will get worse with the development of Wylfa Newydd. There are grave concerns regarding safety now, and there is already an increase in the flow of traffic. Agreed to send a copy of Roger Dobson's report to the three officers above and also to Horizon.

Roger Dobson was thanked for his presentation and for preparing the report.

4.2 Piar Penrhyn Pier

Dim ddiweddariad gan CSYM / No update from IACC.

4.3 Cynllun Llesiant Gwynedd a Mon Wellbeing Plan

Cafwyd adroddiad gan Enid Jones a chrynodeb o'r papur ymgynghori. Roedd yr aelodau yn cytuno gyda'r amcanion ond yn bryderus iawn sut fyddai cyrraedd y targedau ac o ble byddai'r arian yn dod i wneud y gwaith. Mae torriadau yn gwynebu pob adran ym mhob Cyngor – roedd pryderon byddai'r cynllun yn rhoi pwysau pellach ar fudiadau gwirfoddol. Diolchwyd i Enid Jones am ei adroddiad.

Enid Jones gave a report and summary of the consultation paper. Members agreed with the aims but concerned as to how targets would be met, and where the funding would come from to achieve the work. Budget cuts are facing all departments in all councils – there were concerns that the scheme would put further pressure on voluntary organisations. Enid Jones was thanked for her report.

4.4 Sbwriel Cae Chwarae / Play Area Fly Tipping

Mae'r sbwriel wedi ei glirio erbyn hyn, ar gost i'r Cyngor Cymuned gael sgip. Mae giat newydd wedi ei osod yn y porth ac arwyddion wedi eu gosod. Diolchwyd i Dei Owens am osod y giat ac i Jack Longman am glirio'r sbwriel.

The rubbish has by now been cleared, at a cost for the Community Council to hire a skip. A new gate has been fitted in the gateway and signs erected. Dei Owens was thanked for fitting the gate and Jack Longman for clearing the rubbish.

4.5 Coedwig Cwmni Cemaes Woodland

Dim ddiweddariad. Gobeithio gael prisiau am glirio a thwtio'r canol erbyn y cyfarfod nesaf.

No update. It was hoped to obtain quotes for cutting and clearing the centre by the next meeting.

5 Adroddiad Pwyllgor Cyllid / Finance Committee Report

Cafwyd grynodeb o'r cyfarfod diwethaf gan Carys Davies. Nodwyd bod Agoriad Swyddogol Menter y Pentref i gymryd lle 21/4 gan Albert Owen am 10 or gloch. Nid oes ddiweddariad gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol hyd yma ynglŷn a Caffi Bach a'r Maes Parcio. Mae'r pwyllgor wedi penderfynnu aros gyda Zurich am gytundeb tair mlynedd ar gyfer polisi yswiriant y Cyngor. Mae Rhys Williams wedi derbyn y gwaith torri glaswellt a llwybrau. Diolchwyd i Carys Davies am ei hadroddiad a hefyd am ei gwaith i gydlynnu gwaith uwchraddio'r siop.

Carys Davies gave a summary of the last meeting. It was noted that the Official Opening of the Village Venture was to take place 21/4 at 10am in the company of Albert Owen MP. There is no update from the National Trust as yet regarding Caffi Bach and the Car Park. The committee have agreed to arrange a three year agreement with Zurich for the Council's insurance. Rhys Williams has accepted the contracts for the grass cutting and footpaths. Carys Davies was thanked for her report and also for her involvement with the refurbishment and upgrade of the shop.

6 Rheolaeth yr Harbwr / Harbour Management

Dosbarthwyd gopiau o adroddiad Roger Dobson i bawb oedd yn bresennol. Nododd bod y piar a'r tsiaenau wedi ei gwirio'n ofalus yn dilyn y stormydd diweddar a cadarnhawyd nad oedd difrod wedi ei wneud. Deallwyd bod y pwyllgor yn edrych ar y posibilrwydd o gael system CCTV dros yr harbwr, gyda'r gobaith o gydweithio gyda system gyfredol y Cyngor. Nid oedd gan yr aelodau wrthwynebiad mewn egwyddor i'r cyngor yn cyfrannu'n ariannol tuag at ddatblygu ac ehangu'r system CCTV.

Cafwyd wybod bod olew wedi arllwys i'r Wygyr yn dilyn y cyfnod oer. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn delio a'r mater. Trafodwyd a oedd yn foesol codi arian ar gwch oedd yn chwilio am loches yn yr harbwr. Mae prentisiaid Horizon yn gweithio ar yr hen hwins er mwyn ei atgyweirio fel prosiect cymunedol ar gyfer eu rhaglen hyfforddiant. Diolchwyd i Roger Dobson am ei adroddiad.

Copies of Roger Dobson's report were distributed to all present. He noted that the pier and chains had been carefully checked following the recent storms and it was confirmed that there was no damage. It was understood that the committee were looking at the possibility of installing a CCTV system overlooking the harbour, with the hope of working alongside the council's current system. The members had no objection in principle for the council to contribute financially towards developing and expanding the CCTV system.

It was noted that oil had leaked into the Wygyr following the cold spell. Natural Resources Wales are dealing with the matter. It was discussed whether it was moral to charge vessels seeking refuge in the harbour. Horizon's apprentices are working on the old winch to restore it as a community project forming part of their training. Roger Dobson was thanked for his report.

7 Pwyllgor y Pentref / Village Committee

Dosbarthwyd gopi o fap Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn dangos ardaloedd o dir agored yn yr ardal h.y. meysydd chwarae, tir comin, mynwentydd ayyb. Nodwyd nad oedd Bonc y Mor wedi ei gynnwys ar y map, nac ychwaith ardal Tregele o gwbl. Nodwyd siom nad oedd Tregele wedi ei gynnwys ac wedi ei anghofio eto.

A map from the Joint Planning Policy Unit showing open areas in the community e.g. play areas, common land, cemeteries etc was distributed. It was noted that Bonc y Mor had not been included on the map, and neither had Tregele in its entirety. Disappointment was noted that Tregele had not been included on the map and yet again forgotten.

8 Cynllunio / Planning

8.1 Ceisiadau / Applications

Roedd un cais i'w drafod / *there was one application to consider:*

1) Lyndon, Bridge Street (20C331) – dim gwrthwynebiad / *no objection*

8.2 Penderfyniadau / Decisions

Cafwyd wybod am benderfyniadau'r Cyngor Sir fel a ganlyn:

Members were informed of the County Council's decisions as follows:

- *Fferm Arae Haul Rhyd y Groes – Caniatad/Granted*

9 Wylfa Newydd

Cafwyd lythyr gan Dylan Williams, pennaeth Adran Economaidd CSYM mewn ymateb i bryder a nodwyd gan Bartneriaeth Cyngorau Gogledd Mon nad oedd Horizon wedi gallu darparu gwybodaeth ar ddiogelwch eu gweithwyr tro ar ol tro. Mae'r gwaith clirio a pharatoi i fod i ddechrau ym mis Ebrill yn ol Horizon, ac roedd ymatebion i'r cais i'w cyflwyno yn ol ym mis Ionawr!

Cafwyd grynodedb o gyfarfodydd y Bartneriaeth gan Roger Dobson. Nododd fod arbennigwyr WOOD wedi eu ariannu gan Horizon i gefnogi'r cyngorau tref a chymuned. Hyd yma, mae pryderon cyffredinol i'r chwe cyngor wedi eu trafod a cwestiynnau wedi eu gofyn. Mae'r ardaloedd yn gryfach wrth gydweithio, Bydd materion penodol ar gyfer pob ardal hefyd yn cael eu nodi yn eu tro. Dim ond un cyfarfod sydd wedi ei gynnal gyda WOOD hyd yma. Fe ofynnodd Carys Davies a fyddai posib i'r cynrychiolwyr baratoi adroddiad ysgrifenedig yn dilyn pob cyfarfod fel bod gweddill yr aelodau yn ymwybodol o'r trafodaethau.

A letter was received from Dylan Williams, head of Economic Development IACC in response to a concern noted by the North Anglesey Councils Partnership that Horizon have time and time again been unable to provide information on the safety of their workers. The site preparation and clearance work is supposed to start in April according to Horizon, and responses to the application to be submitted back in January!

Roger Dobson gave a summary of the last Partnership meeting. He noted that WOOD consultants were funded by Horizon to support the town and community councils. To date, general concerns common to all councils have been discussed and questions asked. The communities are stronger working together. Specific matters for each area will also be noted in turn. Only one meeting has been held with WOOD to date. Carys Davies asked whether it would be possible for the representatives to prepare a written report following each meeting to that the other members are aware of the discussions.

10 Gohebiaeth / Correspondence

10.1 Swyddfa Bost/ Post Office

Cafwyd wybod yn swyddogol gan y swyddfa bost eu bod yn bwriadu ehangu'r gwasanaethau yng ngarej Tregele. Roedd yr aelodau yn gefnogol iawn o'r fenter.

Official notification of the post office's intentions to expand the service provided at Tregele garage. Members were very supportive of the venture.

10.2 Ymddiriedolaeth Genedlaethol / National Trust

Cafwyd lythyr gan y corff yn datgan na fyddai posib tynnu'r ffens ger y lon ar y ffordd i fewn i'r pentref. Roedd yr aelodau wedi gobeithio lleihau maint y ffens er mwyn gwella'r olygfa'n gyffredinol.

A letter from the organisation noting that it would not be possible to remove the fence by the road leading into the village. The members had hoped to reduce the height of the fence to improve the view in general.

10.3 Clwb Pel Droed Cemaes *Football Club*

Cafwyd lythyr gan Dr Tom Conway yn rhoi ddiweddariad am weithgareddau'r Clwb.
A letter from Dr Tom Conway gave an update of the Club's activities.

11 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

11.1 Gor-yrru / Speeding

Nododd Rhian Hayes bod y ddau PCSO wedi bod mewn cysylltiad a byddent yn yn ymweld a'r ardal eto yn fuan gyda'u camerau.

Rhian Hayes noted that the two PCSOs had been in contact and would be visiting the area again soon with their cameras.

11.2 Meinciau / Benches

Cadarnhawyd bod y Cyngor yn fodlon i Carys Davies archebu dwy mainc llwyd o'r plastic wedi ei ailgylchu am gost o £350 yr un ar gyfer y gofeb. Mae wedi sgwrsio a'r ysgol ac maent yn fodlon cynnal a chadw boscus blodau 'r gofeb.

Members confirmed they were happy for Carys Davies to order two grey recycled plastic benches at a cost of £350 each for the memorial. She has spoken to the school who are happy to maintain the flower boxes for the memorial.

11.3 Llwybrau / Footpaths

Nodwyd bod llwybr yn y parc angen sylw. Cytuno i Jack Longman archebu'r deunyddiau a chwblhau'r gwaith. Roedd cwynion hefyd am y llwybr ger y cae chwarae yn Nhregele. Mae disgwyl ymateb gan CSYM gau mai eu cyfrifoldeb nhw yw hwn.

It was noted that the path in the park needed attention. Agreed for Jack Longman to order the materials required and complete the work. There were also concerns regarding the path by the play area in Tregele. A response is expected from IACC as this path is their responsibility.

12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Ebrill 16 2018 am 7 o'r gloch.

The next meeting will be held on Monday evening April 16, 2018 at 7pm.

Bu'r cyfarfod orffen am 21.30 / *The meeting closed at 21.30*

CET03/2018

Arwyddwyd / Signed

Derek Owen

Cadeirydd/Chair